



Date issued: 28 January 2019

Nifer y Ffurflenni Blynyddol a Chostau Cyfieithu yr Iaith Gymraeg

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'r cais am wybodaeth a wnaethoch ar 28 Rhagfyr 2018, ac fe'i heglurwyd ar 01 Ionawr 2019, yn gofyn am wybodaeth ynghylch nifer y Ffurflenni Blynyddol a chostau cyfieithu yr Iaith Gymraeg.

Er hwylustod i chi, rydw i wedi cynnwys eich cwestiynau isod cyn amlinellu ein hymateb.

Faint o Gyngorau Cymuned a Thref ddaru anfon eu ffurflen flynyddol, a phob gwybodaeth, tystiolaeth ac unrhyw ddogfennau eraill yn uniaith Gymraeg yn:

2014/15

2015/16

2016/17

2017/18

Ar gyfer y cyfnod 2014-15, penododd yr Archwilydd Cyffredinol archwilwyr i archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngorau Cymuned. Mae archwilwyr llywodraeth leol yn ddeiliaid swyddfeydd ar wahân ac nid ydynt yn awdurdodau cyhoeddus o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG). Felly, nid oes hawl mynediad o dan y Ddeddf honno i wybodaeth a gedwir gan archwilwyr penodedig. Rwy'n cadarnhau nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru (sy'n destun y DRhG) yn cadw copïau o'r wybodaeth y gofynnir amdano ar gyfer 2014-15.

Ar gyfer 2015/16, 2016/14 a 2017/18, archwiliwyd y Cyngorau Cymuned a Thref ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan gwmnïau BDO a Grant Thornton, yn ogystal â staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Nid oes gennym gofnodion penodol cyflawn o niferoedd y Ffurflenni Blynyddol, a gwybodaeth ategol a thystiolaeth, a dderbyniwyd trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer 2015/16, 2016/14 a 2017/18 gan fod BDO, Grant Thornton a Swyddfa Archwilio Cymru yn cofnodi gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd.

Fodd bynnag, rwy'n gallu darparu rhywfaint o wybodaeth isod, a allai fod o ddiddordeb.

Mae'r niferoedd canlynol o Ffurflenni Blynyddol a dogfennau ategol Cymraeg wedi'u cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru.

2015/16: 4

2016/17: 4

2017/18: 3

Mae Grant Thornton yn dal gwybodaeth am nifer yr adroddiadau archwilio a gyhoeddir yn Gymraeg, fel y dangosir isod.

2015/16: 34

2016/17: 36

2017/18: 50

Mae gan BDO wybodaeth sy'n nodi nifer y ffolderi system sy'n storio dogfennau Cymraeg, a dangosir y niferoedd isod.

2015/16: 97

2016/17: 85

2017/18: 79

Beth oedd cyfanswm y gôst yn gysylltiedig â chyfieithu'r hyn â dderbyniwyd yn y Gymraeg gan Gyngorau Cymuned a Thref yn archwiliadau ffurflenni blynyddol

2014/15

2015/16

2016/17

2017/18

Nid ydym yn dal cofnodion sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn.

Fel esboniwyd uchod, ni chynhelir gwybodaeth ar gyfer 2014/15 wrth i'r archwiliadau gael eu cynnal dan drefniadau archwilwyr penodedig.

Mewn perthynas â 2015/16, 2016/17 a 2017/18, gallaf gadarnhau nad yw BDO na Grant Thornton yn cofnodi cost cyfieithu ar wahân. Mae'r contractau'n darparu ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio yn Gymraeg neu yn Saesneg ac nid yw cyfieithu yn gost y gellir ei godi.

Lle mae gwaith archwilio yn cael ei wneud ar Ffurflenni Blynnyddol y Gymraeg a gwybodaeth ategol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru mae'r staff sy'n gwneud y gwaith â sgiliau iaith Gymraeg addas.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am y ffordd rydw i wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth